# Cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – 22 Hydref 2024

## Mae’r agenda’n cynnwys

- Trosolwg o Bartneriaethau Awdurdodau Sylfaenol
- Trosolwg o gynllun peilot y Model Gweithredu Safonau Bwyd
- Trosolwg gan dîm Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau’r ASB

Mae’r agenda lawn i’w gweld ar dudalen Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru ar ein gwefan.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y pynciau hyn, neu yng ngwaith yr ASB yn gyffredinol, ddod i’r cyfarfod i fynegi barn ac i gymryd rhan mewn sesiwn holi ac ateb agored.

Gallwch fod yn bresennol ar-lein ac mae modd cyflwyno cwestiynau i’r Pwyllgor ymlaen llaw trwy ddilyn y cyfarwyddiadau isod.

## Lleoliad

Cynhelir y cyfarfod yn Ystafell Harlech, Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, ac ar-lein dros Microsoft Teams.

## Cadw eich lle a chyflwyno cwestiynau

Anfonwch e-bost i walesadminteam@food.gov.uk er mwyn gallu gwylio ar-lein, cyflwyno cwestiwn neu gael mwy o wybodaeth.